CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH

18 Tachwedd 2025, Trwy Zoom am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Williams, S Jones, D ap Rhobert, M Jones, C McGregor, A Williams, E Williams, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Hughes, A Wyn	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd Cyng M Jones. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng C McGregor eitem 4.4 Cyng A Williams 5.1
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 28.10.25. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng D ap Rhobert yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**B5110 40myh** - Mae'r Cyngor Sir dal yn aros am ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ar ardaloedd 30/40mya.
4.2	**Sgwar Talwrn (damweiniau)** – Mae'r gwaith sydd i'w wneud yn y sgwâr wedi'i gontractio allan ond nid yw wedi'i wneud eto.
4.3	**Wal Mynwent Llanfihangel Tre'r Beirdd** – Mae'r Clerc wedi derbyn dyfynbris o £1350 gan Trefor Jones ar gyfer atgyweiriadau i'r wal. Cytunwyd i fwrw ymlaen.
4.4	**8 Maes y Coed, Talwrn** - Mae'r mater hwn wedi bod yn mynd ymlaen ers dechrau'r flwyddyn. Mae'n ymddangos bod y Cyngor Sir yn amharod i roi unrhyw wybodaeth i'r Cyngor Cymuned ac maen nhw'n araf yn ateb y Clerc. Cytunwyd i gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon.
4.5	**Porth Newydd/carafannau Llanddyfnan** - Mae'r Clerc yn aros am wybodaeth gan y Cyngor Sir.
4.6	**Llwybr Lon Goch Talwrn -** Mae gwaith wedi'i wneud ond mae angen gwaith pellach. Bydd y Clerc yn cysylltu'n ôl â'r Cyngor Sir.
4.7	**Bagiau cwn, Talwrn -** Cytunwyd y gellir tynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda.
4.8	**3 Glanrafon, Talwrn** - Nid yw'r gwaith wedi'i wneud eto
4.9	**Cais cynllunio LUE/2025/29** - Mae'r Clerc yn aros am wybodaeth gan y Cyngor Sir.
	Llofnod…….Cadeirydd 20.01.26

4.10	**Gorchymyn Traffig Arfaethedig Canolbarth Mon** - Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan y Cyngor Sir
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	HHP/2025/180 – cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Penyfan Gosaf, Talwrn – dim gwrthwynebiad.
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Cylch Meithrin Talwrn - Mae cais wedi dod i law am rodd ariannol. Cytunwyd i wahodd cynrychiolydd o'r grŵp i'r cyfarfod nesaf i drafod eu sefyllfa ariannol.
6.2	**Gor-yrru Capel Coch** - Derbyniwyd cwyn gan Mrs Barabara Avery fel a ganlyn: *"Mae goryrru yn y pentref wedi dod yn broblem enbyd. Rwyf wedi cael fy arwain i gredu bod grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru trwy Gynghorau Cymuned ar gyfer darparu arwyddion rhybuddio cyflymder, yn enwedig y math o wyneb gwenu a grybwyllwyd. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech roi unrhyw wybodaeth i mi am argaeledd grantiau o'r fath"* Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir ac yn cysylltu'n ôl â hi.
7	**MATERION ERAILL**
7.1	**Mainc cysgodfan bws** - Mae'r Cynghorydd Meurig Jones wedi derbyn cais am sedd/mainc i'w gosod yn y cysgodfan bws ger tai'r cyngor yn Nhalwrn. Rhannodd y Clerc gatalog ar-lein. Cytunwyd i brynu mainc o'r Shelter Store am £264.
7.2	Diolchwyd i Mr Gwyn Williams am beintio'r rheiliau yn y gofeb cyn Sul y Cofio.
8	**MATERION ARIANNOL**
8.1	Gwiriad cyllid chwarterol (30.09.25) - Mae'r Cynghorydd C McGregor wedi gwneud y gwiriad chwarterol ac nid oedd unrhyw wallau. Diolchwyd iddo am wneud y gwaith.
8.2	Adolygu Cyflog y Clerc - Cytunwyd i gynyddu cyflog y Clerc £361 y flwyddyn o fis Ebrill 2026 ymlaen.
8.3	Cytunwyd i dalu £20 i G Owen (Clerc) am dorch Sul y Cofio
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Survey – Halfway, Talwrn
	Llofnod…….Cadeirydd 20.01.26